Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**O bell drwy Zoom**

**Dydd Iau, 20 Ionawr 2022 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| M C Child | R Francis-Davies | L S Gibbard |
| D H Hopkins | E J King | A S Lewis |
| R V Smith | A H Stevens | M Thomas |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Helen Morgan-Rees | Cyfarwyddwr addysg |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd(wyr): A Pugh

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): -

---

## 97. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â’r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd R C Stewart gysylltiad Personol â Chofnod 110 "Cynnig i Brydlesu Rhan o Barc Coedgwilym i Gyfeillion Parc Coedgwilym". Nodir: Ni chymerodd ran yn y bleidlais.

2) Datganodd Ben Smith gysylltiad Personol â Chofnod 105 “Cynigion y Gyllideb 2022/23-2025/26”.

## 98. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr, 2021.

**99. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.**

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan Arweinydd y Cyngor.

**100. Cwestiynau gan y cyhoedd.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**101. Hawl i holi cynghorwyr.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**102. Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau adroddiad a oedd yn ceisio mabwysiadu Cynllun Strategol terfynol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) 2022-2032.

**Penderfynwyd:**

1) Mabwysiadu Cynllun Strategol terfynol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) 2022-2032.

2) Caiff Cynllun Strategol terfynol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.

**103. Adborth ar Graffu Cyn Penderfynu - Adfer o COVID a Buddsoddiad. (Llafar)**

Derbyniwyd yr adborth cyn penderfynu.

**104. Adfer o COVID a Buddsoddiad.**

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Testun Craffu cyn Penderfynu:*** *Mae’r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod “y penderfyniad wedi bod yn destun Craffu Cyn Penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i wybodaeth/dystiolaeth berthnasol”.*

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth adroddiad a oedd yn adrodd am y cynnydd a wnaed hyd yn hyn ynghylch Adferiad COVID, ac argymhellodd y dylid cymeradwyo'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol a chynigion buddsoddi pellach.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r cynnydd da hyd yma a'r hyblygrwydd parhaus sydd ei angen i ymateb i heriau a newidiadau parhaus ac sy'n dod i'r amlwg ar gyfer y cyngor, ei wasanaethau a'i weithlu.

2) Yn unol â gofynion Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol (rhaglennu a gwerthusiadau cyfalaf), mae'r Cabinet yn ymrwymo ac yn awdurdodi cynllun newydd gwerth £2m i'r rhaglen gyfalaf er mwyn symud y ganolfan ddata i Neuadd y Ddinas.

3) Caiff y cynllun a'r amserlen ddiwygiedig ar gyfer gweithredu'r rhaglen Oracle ynghyd â buddsoddiad pellach o £3,620,412 yn unol â gofynion Rheol 5 y Weithdrefn Ariannol eu cymeradwyo.

4) Nodi'r diweddaraf am y gwasanaethau cymdeithasol.

5) Nodi'r diweddaraf am y cyfalaf wrth gefn a'r dyraniadau tebygol a chytuno i barhau i gadw'r cydbwysedd fel swm wrth gefn sy'n weddill.

6) Dyrannu £2.05m o arian y Gronfa Adfer Economaidd (CAE) a nodir yn yr adroddiad at ddibenion cyfleusterau chwarae a pharciau sglefrio gwell fel cyllideb gyfalaf newydd yn unol â gofynion Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol; a dirprwyo'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen hon i Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth a'r Cyfarwyddwr Lleoedd i gwblhau'r rhaglen gyflwyno fanwl.

## 105. Cynigion y Gyllideb 2022/23 - 2025/26.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth adroddiad a oedd yn ystyried cynigion cyllidebol ar gyfer 2022/2023 i 2025/2026 fel rhan o strategaeth cyllideb bresennol y cyngor.

**Penderfynwyd:**

7) Cymeradwyo'r cynigion cyllidebol a grynhowyd yn yr adroddiad ac y nodwyd yn Atodiad B yr adroddiad fel sail ymgynghoriad.

8) Mabwysiadu'r rhagolwg cyllidebol diweddaredig ar gyfer y dyfodol fel y rhagosodiad cynllunio cychwynnol ar gyfer y cynllun ariannol tymor canolig, a gaiff ei ystyried gan y cyngor ar 3 Mawrth 2022.

9) Cytuno ar yr ymagwedd at ymgynghori ac ymgysylltu â staff, undebau llafur, preswylwyr, partneriaid a phartïon eraill â diddordeb fel y'u hamlinellir yn Adran 7 yr adroddiad.

10) Cyflwyno adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad a'r cynigion cyllidebol terfynol yn ei gyfarfod ar 17 Chwefror 2022.

## 106. Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth adroddiad a oedd yn ceisio sicrhau bod y cyngor yn mabwysiadu'r Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol newydd ar gyfer de-orllewin Cymru (i gymryd lle Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-ranbarth Bae Abertawe 2013).

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo a mabwysiadu Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru fel polisi adfywio economaidd cyffredinol y cyngor i gymryd lle Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

## 107. Cynllun Strategaeth Ynni Rhanbarthol De-orllewin Cymru.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth ac Aelod y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Thrawsnewid Gwasanaethau adroddiad ar y cyd a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i fabwysiadu Strategaeth Ynni Rhanbarthol De-orllewin Cymru.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo fersiwn 'ddrafft' Strategaeth Ynni Rhanbarthol De-orllewin Cymru, fel y nodir yn Atodiad A yr adroddiad.

2) Rhoi awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lleoedd ac Aelod y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Thrawsnewid Gwasanaethau wneud unrhyw newidiadau terfynol i'r Strategaeth yn unol â phroses gymeradwyo'r pedwar Awdurdod Lleol.

3) Cymeradwyo'r broses o gyflwyno Strategaeth Ynni Rhanbarthol ddrafft De-orllewin Cymru i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol Rhanbarthol (CCRh) ar ôl iddi gael ei chyfansoddi'n ffurfiol.

## 108. Strategaeth y dyfodol ar gyfer Lletygarwch Awyr Agored.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau adroddiad a oedd yn amlinellu'r camau a gymerwyd yn ystod y pandemig i gefnogi'r fasnach lletygarwch a pholisïau a gweithdrefnau arfaethedig yn y dyfodol.

**Penderfynwyd:**

4) Dylid ymestyn y consesiwn mewn perthynas â Thrwyddedau Palmant a Thrwyddedau Priffyrdd tan 31 Mawrth 2023.

5) Caiff y cytundebau a'r Trwyddedau hynny sydd wedi'u hymestyn i'r ffordd gerbydau eu hadolygu a'u hymestyn fel y bo'n briodol o fewn yr awdurdod dirprwyedig presennol.

6) Caiff adolygiad pellach o dir trwyddedig, nad yw'n briffordd ei dderbyn a'i ystyried erbyn canol 2022.

## 109. Canolfan Ddiwylliannol a Digidol yn Theatr y Grand Abertawe: Cytundeb Rheoli a Phrydles.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn rhoi'r diweddaraf am delerau trefniadau'r Cytundeb Rheoli, Tenantiaeth a Phrydlesu gyda Cyngor Hil Cymru ar gyfer Ganolfan Ddiwylliannol a Digidol Theatr y Grand Abertawe.

**Penderfynwyd:**

7) Nodi telerau fersiwn derfynol y Cytundeb Rheoli gyda Cyngor Hil Cymru (CHC) a amlinellir yn yr adroddiad ac a nodir yn Atodiad A, a chymeradwyo'r argymhelliad

presennol ar gyfer ffïoedd a chyfraddau ystafelloedd fel y nodir yn Atodiad B yr adroddiad.

8) Caiff y ddarpariaeth o gyllid ychwanegol fel a nodir yn y Goblygiadau Ariannol ym Mharagraff 5 yr adroddiad ei chymeradwyo.

9) Rhoi awdurdod i Bennaeth y Gwasanaethau Eiddo i ymrwymo i Denantiaeth wrth Ewyllys, ac mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyfreithiol ac Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Twristiaeth ac Adfywio drafod a chytuno ar delerau terfynol y brydles gyda Cyngor Hil Cymru.

10) Rhoi awdurdod i'r Prif Swyddog Cyfreithiol ymrwymo i'r brydles ar ran y cyngor.

## 110. Cynnig I Brydlesu Rhan O Barc Coedgwilym I Gyfeillion Parc Coedgwilym.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i drafod a chytuno ar Benawdau Telerau ac ymrwymo i brydles gyda Chyfeillion Parc Coedgwilym ar gyfer rhannau o Barc Coedgwilym.

**Penderfynwyd:**

11) Cymeradwyo'r bwriad i werthu'r tir i Gyfeillion Parc Coedgwilym ar lefel o danbrisio sy'n dderbyniol i'r Cabinet yn seiliedig ar gyngor Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo.

12) Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lleoedd drafod a phenderfynu ar delerau'r brydles arfaethedig (ac unrhyw Weithredoedd Amrywiad wedi hynny) a dirprwyo awdurdod i'r Prif Swyddog Cyfreithiol er mwyn cwblhau'r ddogfennaeth gyfreithiol.

## 111. Cytundeb Compact y Trydydd Sector - Diweddariad.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gefnogi Cymunedau adroddiad gwybodaeth a oedd yn rhoi'r diweddaraf am Gytundeb Compact Trydydd Sector Abertawe a'r gwaith hyd yn hyn gan Grŵp Cyswllt y Compact a ffurfiwyd fel rhan o Gytundeb Compact diwygiedig Abertawe gyda'r Sector Gwirfoddol yn 2018.

**Penderfynwyd:**

13) Y dylid nodi'r adroddiad.

## 112. Strategaeth Rheoli Rhenti Tai 2022 - 2026.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Thrawsnewid Gwasanaethau adroddiad gwybodaeth a oedd yn amlinellu'r Strategaeth Rheoli Rhenti Tai 2022-2026.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.25 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 20 Ionawr 2022 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, 25 Ionawr 2022 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 26 Ionawr 2022 |